USE OF DUMMIES POLICY

At Wibli Wobli Nursery we recognise that a dummy can be a source of comfort for a child who is settling and/or upset, and that it may often form part of a child's sleep routine.

We also recognise that overuse of dummies may affect a child's language development as it may restrict the mouth movements needed for speech. As babies get older they need to learn to move their mouths in different ways, to smile, to blow bubbles, to make sounds, to chew food and eventually to talk. As babies move their mouths and experiment with babbling sounds they are learning to make the quick mouth movements needed for speech. The more practice they get the better their awareness of their mouths and the better their speech will be.

Our nursery will:

- Discuss the use of dummies with parents as part of babies' individual care plans
- Only allow dummies for comfort if a child is really upset (for example, if they are new to the setting or going through a transition) and/or as part of their sleep routine
- Store dummies in individual hygienic dummy boxes labeled with the child's name to prevent cross-contamination with other children
- Immediately clean or sterilize any dummy or bottle that falls on the floor or is picked up by another child.
- Dummies will be disposed of if they become damaged and/or when they are required to be disposed of

When discouraging the dummy staff will:

- Make each child aware of a designated place where the dummy is stored
- Comfort the child and if age/stage appropriate explain in a sensitive and appropriate manner why they do not need their dummy
- Distract the child with other activities and ensure they are settled before leaving them to play
- Offer other methods of comfort such as a toy, teddy or blanket
- Explain to the child they can have their dummy when they go home or at sleep time.

We will also offer support and advice to parents to discourage dummy use during waking hours at home and suggest ways in which the child can be weaned off their dummy through books and stories (when appropriate).

This policy was adopted on	Signed on behalf of the nursery	Date for review
27/10/2026	*L.George*	*10/2027*

POLISI DEFNYDDIO DYMI

Ym Meithrinfa Wibli Wobli rydym yn cydnabod y gall dymi fod yn ffynhonnell cysur i blentyn sy'n setlo a / neu wedi cynhyrfu, ac y gall fod yn rhan o drefn cysgu plentyn.

Rydym hefyd yn cydnabod y gall gor-ddefnyddio dymis effeithio ar ddatblygiad iaith plentyn gan y gallai gyfyngu ar symudiadau'r geg, rhywbeth sydd ei angen ar gyfer datblygu lleferydd. Wrth i fabanod fynd yn hŷn mae angen iddynt ddysgu symud eu cegau mewn gwahanol ffyrdd, gwenu, chwythu swigod, gwneud synau, cnoi bwyd ac yn y pen draw i siarad. Wrth i fabanod symud eu cegau ac arbrofi gyda seiniau babi maent yn dysgu gwneud y symudiadau cyflym yn y geg ar gyfer lleferydd. Po fwyaf o ymarfer maen nhw'n ei gael , bydd yn gwella eu hymwybyddiaeth o'u cegau a bydd hyn yn gwella eu gallu i siarad.

Bydd ein meithrinfa yn:

- Trafod defnyddio dymis gyda rhieni fel rhan o gynlluniau gofal unigol babanod
- Dim ond yn caniatáu dymi os yw plentyn yn drist iawn (er enghraifft, os yw'n newydd i'r lleoliad neu'n mynd trwy gyfnod pontio) a / neu fel rhan o'u trefn gwsg
- Storio dymis mewn bocsys dymi priodol ac unigol wedi'u labelu ag enw'r plentyn i atal croeshalogi â phlant eraill
- Yn glanhau neu ddiheintio unrhyw ddymi neu botel sy'n syrthio ar y llawr ar unwaith neu sy'n cael ei godi gan blentyn arall.
- Byddwn yn taflu unrhyw ddymi sydd wedi ei ddifrodi a/neu pan fo angen eu taflu ymaith.

Bydd staff yn annog lleihau defnydd o ddymi drwy:

- Wneud bob plentyn yn ymwybodol o le dynodedig lle mae'r dymi yn cael ei storio
- Cysuro'r plentyn ac os yw oedran / cam yn briodol egluro mewn modd sensitif a phriodol pam nad oes angen eu dymi
- Dynnu sylw'r plentyn at weithgareddau eraill a sicrhau ei fod wedi'i setlo cyn ei adael i chwarae
- Cynnig dulliau eraill o gysur fel tegan, tedi neu flanced
- Egluro wrth y plentyn y gallant gael eu dymi pan fyddant yn mynd adref neu yn ystod amser cysgu.

Byddwn hefyd yn cynnig cefnogaeth a chyngor i rieni i'w hannog i beidio â defnyddio dymi yn ystod oriau deffro gartref ac awgrymu ffyrdd y gellir lleihau defnydd y plentyn o ddymi drwy lyfrau a storïau (pan fo hynny'n briodol).

Mabwysiadwyd y polisi hwn ar	Llofnodwyd ar ran y feithrinfa	Dyddiad adolygiad nesaf
27/10/2026	*L.George*	*10/2027*